TIRLUN

## DEUNYDDIAU ATEGOL

# BETH MAE ADFEILION YN EI DDWEUD WRTHYM?

Mae dysgwyr yn dod i wybod am Abaty Tyndyrn a bywydau mynachod a lleianod Sistersaidd, yn enwedig sut maen nhw'n cyfathrebu. Maent yn archwilio sut mae pobl yn defnyddio iaith arwyddion ac yn datblygu eu hiaith arwyddion eu hunain. Mae dysgwyr yn mynd ar daith gerdded i chwilio am gliwiau am orffennol diwydiannol cyfoethog yr ardal o amgylch Abaty Tyndyrn ac yn astudio Llwybr Angidy i ddarganfod mwy, cyn creu taflen am ran o'r llwybr.

## CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd Dysgu a Phrofiad a archwiliwyd:**

- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a'r FfCD.

## ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.
Mynediad at: Find out what every symbol means on an OS Explorer map - OS GetOutside (Saesneg yun unig).

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Gallai rhai tasgau fod yn fwy effeithiol os oes gan barau neu grwpiau o ddysgwyr fynediad at ddyfais sy'n darparu mynediad i'r rhyngrwyd.
- Sylwer, os gwelwch yn dda: i gael mynediad at is-deitlau Cymraeg ar fideo, cliciwch ar 'Settings', yna detholwch 'Subtitles', yna 'Auto-translate' a dewis 'Welsh'.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

## BYWYD FEL MYNACH NEU LEIAN

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n dod i wybod am Abaty Tyndyrn a bywydau mynachod a lleianod Sistersaidd ac yn datblygu eu ffurf eu hunain ar iaith arwyddion, yn y dasg hon.

### Sgrîn 3

Gwahoddwch y dysgwyr i edrych ar y llun hynafol o Abaty Tyndyrn ac i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ffotograff o beth yw hwn? Sut ydych chi'n gwybod?
- O ble mae'r ffotograff wedi'i gymryd? Pam ydych chi'n meddwl hyn?
- I ba gyfeiriad mae'r afon yn llifo? Sut ydych chi'n gwybod?

### Sgrîn 4

Ar y sgrîn hon, rhoddir gwybodaeth gefndir i ddysgwyr am Abaty Tyndyrn.

## Sgrîn 5

Ar y sgrîn, mae map Arolwg Ordnans (OS) o Ddyffryn Gwy. Gofynnwch i'r dysgwyr gyrchu'r map, dod o hyd i Abaty Tyndyrn a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa mor bell yw Abaty Tyndyrn o'ch ysgol? Sut y gallwch chi weithio allan beth yw'r pellter hwn?
- Beth fyddai'r ffordd orau o deithio i Abaty Tyndyrn? Pam?
- Pam, yn eich barn chi, yr adeiladwyd yr abaty yn y lleoliad hwn?
- Beth ydych chi'n ei wybod am hanes Abaty Tyndyrn? Sut ydych chi'n gwybod hyn?
- Pam ydych chi'n meddwl bod yr abaty bellach yn adfail?

## Sgriniau 6-7

Ar y sgriniau hyn, rhoddir gwybodaeth gefndir bellach i ddysgwyr am Abaty Tyndyrn a'r mynachod. Gofynnwch iddynt ddarllen y wybodaeth a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa fath o fynach fyddai orau gennych chi fod? Pam?

## Sgriniau 8-9

Mae'r sgriniau hyn yn rhoi gwybodaeth gefndir i ddysgwyr am fynachod a lleianod Sistersaidd. Gwahoddwch nhw i ddarllen y wybodaeth a'r atodiad am ddiwrnod ym mywyd mynach neu leian Sistersaidd ac i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Faint o amser mae'r mynachod neu'r lleianod yn ei neilltuo i weddi?
- Sut beth yw bywyd un o'r mynachod neu'r lleianod hyn, yn eich barn chi? Pam?
- Beth fyddech chi'n ei golli yn eich bywyd bob dydd, petaech chi'n fynach neu'n lleian? Pam?
- Pam ydych chi'n meddwl bod y mynachod neu'r lleianod yn hapus i roi'r gorau i'r bywydau oedd ganddynt yn y gorffennol?

## Sgrîn 10

Dywedwch wrth y dysgwyr nad yw mynachod a lleianod Sistersaidd yn siarad, os nad oes gwir angen iddynt wneud hynny, a'u bod wedi datblygu eu hiaith arwyddion eu hunain. Gofynnwch iddynt wylio'r fideo [When Did Sign Language Start?] ac i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa mor hen yw iaith arwyddion? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pam ydych chi'n meddwl bod iaith arwyddion mewn mynachlogydd yn lleihau siarad segur?
- Beth ydych chi'n ei wybod am Iaith Arwyddion Prydain? Sut ydych chi'n gwybod hyn?

## Sgrîn 11

Gofynnwch i'r dysgwyr wylio'r fideo [10 Really Useful Signs in British Sign Language (BSL)] ac yna gallant ymarfer defnyddio'r arwyddion a ddangosir ar y fideo, ar y cyd gyda phartner.

## Sgrîn 12

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod am ddyfeisio eu hiaith arwyddion eu hunain mewn grŵp, ac yna'i rhannu ag eraill. Bydd pawb yn ceisio gweithio allan beth mae pobl eraill yn ceisio'i ddweud.

## Sgriniau 13-14

Eglurwch wrth y dysgwyr y bydd pob grŵp yn cyflwyno eu hiaith arwyddion i'r dosbarth. Gofynnir i'r gynulleidfa ddethol arwyddion penodol yr oeddent yn eu deall (neu'n meddwl eu bod yn eu deall) a rhoi trosolwg o'r hyn a gyflwynwyd.

Gwahoddwch bob grŵp i ddefnyddio iaith arwyddion i gyflwyno eu rhigwm, barddoniaeth neu destun i'r dosbarth.

## Sgrîn 15

Gwahoddwch y dysgwyr i ddefnyddio un neu fwy o'r ymadroddion ar gyfer dechrau brawddegau, wrth fyfyrio ar y dasg, gan rannu'r rhain gyda'r dosbarth.

TASG 2

# PA GLIWIAU Y GALLWN NI DDOD O HYD IDDYNT AM ORFFENNOL DIWYDIANNOL ARDAL TYNDYRN?

Yn y dasg hon bydd y dysgwyr yn archwilio gorffennol diwydiannol cyfoethog yr ardal o amgylch Abaty Tyndyrn, gan chwilio am gliwiau a chreu taflen i roi gwybodaeth i eraill.

## Sgrîn 3

Dywedwch wrth y dysgwyr fod gan Tyndyrn a'r cyffiniau orffennol diwydiannol cyfoethog ac y byddan nhw'n mynd am dro i ddarganfod mwy am y gorffennol hwn. Gwahoddwch nhw i gyrchu'r dudalen we am Lwybr Angidy: Taflen – Angidy Trail (Saesneg yn unig), sganio'r cynnwys a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Am beth mae'r daflen hon yn son?
- Ble mae'r llwybr?
- Beth mae'r daflen yn ceisio ei wneud? Pa mor llwyddiannus yw'r daflen, yn eich barn chi?

## Sgrîn 4

Dywedwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n gwneud taflen am ran o Lwybr Angidy, ar ôl y daith gerdded. Pan fyddan nhw allan ar y daith, byddant yn chwilio am gliwiau o orffennol diwydiannol yr ardal. Crybwyllir rhai o'r cliwiau hyn yn y daflen, fodd bynnag, efallai y byddant yn dod o hyd i gliwiau eraill i ymchwilio iddynt. Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa fathau o gliwiau ydych chi'n meddwl y byddwch chi'n dod o hyd iddyn nhw? Pam?
- Sut byddwch chi'n cofnodi cliwiau am orffennol diwydiannol yr ardal?
- Sut byddwch chi'n dangos y cliwiau hyn yn eich taflen?
- Beth fydd angen i chi ei gymryd gyda chi ar y daith? Pam?

## Sgrîn 5

Gwahoddwch y dysgwyr i fynd allan i'r awyr agored a darganfod cliwiau am orffennol diwydiannol yr ardal, a'u cofnodi.

## Sgrîn 6

Pan fydd y dysgwyr wedi casglu eu cliwiau, gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ble cafwyd hyd i'r cliw?
- Sut gallwch chi gofnodi ei leoliad?
- Sut olwg sydd arno?
- Beth ydych chi'n meddwl oedd hwn ar un adeg? Pam?
- Pa mor hen yw eich cliw, yn eich barn chi? Pam?

Gan ddefnyddio ffonau clyfar neu dabledi, gallai dysgwyr ddefnyddio GPS i gofnodi cyfesurynnau eu cliwiau.

Yna, gwahoddwch y dysgwyr i ymchwilio ar y rhyngrwyd i ddarganfod beth mae pob cliw yn ei olygu ac i wneud nodiadau am bob cliw y daethon nhw o hyd iddo.

## Sgrîn 7

Dywedwch wrth y dysgwyr y bydd angen iddynt gynllunio eu taflen cyn dechrau ei gwneud. Gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau canlynol i gefnogi'r broses gynllunio.

**Cwestiynau ffocws**

- Ble mae eich llwybr yn dechrau ac yn gorffen? Pam?
- Faint o gliwiau ydych chi'n mynd i'w cynnwys yn eich taflen? Pam?
- Pa rai yw'r cliwiau gorau i'w defnyddio? Pam?
- Sut allech chi roi cyfarwyddiadau i ddarllenwyr ynghylch ble i ddod o hyd i'ch cliwiau?
- Sut byddwch chi'n dangos i ddarllenwyr sut olwg sydd ar eich cliwiau?
- Pa wybodaeth fyddwch chi'n ei chynnwys am bob cliw? Pam?

## Sgriniau 8-9

Ar y sgriniau hyn, gwahoddir dysgwyr i wneud taflen a'i rhannu â phâr arall o ddysgwyr, gan ofyn iddynt roi adborth ar eu taflen.

Ar ôl cael adborth, gofynnwch i'r dysgwyr wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'w taflen ac yna gofyn i bâr arall o ddysgwyr roi cynnig ar eu taflen, er mwyn gweld pa mor dda y mae'n gweithio.

## Sgrîn 10

Eglurwch wrth y dysgwyr eich bod am iddyn nhw ddefnyddio'r triongl myfyrio ar gyfer myfyrio ar y broses o wneud eu taflen. Gwahoddwch y dysgwyr i lusgo a gollwng y termau a ddarperir i ddangos eu meddyliau ac i ystyried pa strategaethau eraill a ddefnyddiwyd ganddynt ac i gofnodi eu syniadau.